

CRYNODEB CYFARFOD

Cyngor Cymuned Llandderfel

Nos Fawrth, Hydref 3ydd 2023 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Mynach.

Presennol: Eifion Davies (cadeirydd), Bethan Thomas, Gwynedd Jones, Rita Jones, Dewi Pritchard, Gwenda Evans, Gwynedd Jones, Gwenda Morris, Maldwyn Jones a'r clerch.

Ymddiheuriadau: Gary Thomas, Alwyn Jones, Iolo Evans a'r Cyng. Elwyn Edwards.

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Medi 5ed 2023) **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant – **Dim.**

iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.

a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.

b) Cyfarfod i drafod darpariaeth ddeintyddol yn ein hardal (a drefnwyd gan Mabon ap Gwynfor, MS)

c) Mynwentydd

i) Arwydd y fynwent.

ii) Cronfa Gymunedol Eryri – diweddariad ar brosiect llwybr troed mynwent Frongoch.

iii) Cais ariannol Cronfa Fferm Wynt Coedwig Clocaenog – gwelliannau i'r mynwentydd. **Cafwyd diweddariad gan y clerch a cytunwyd i symud ymlaen i wneud cais i'r Gronfa.**

iv) Gohebiaeth

a) Cyngor Gwynedd.

i) Gorchymyn (Amryw Ffyrdd Sirol, Ardal Meirionnydd) (Cyfyngiad Cyflymder 20 M.Y.A.) 2023

ii) Cyllid - Cymunedau Gwyrdd Gwynedd.

iii) Swyddog Cefnogi Cymunedau newydd.

iv) Rhaglen Waith mis Hydref yr Adran Priffyrdd.

b) Llywodraeth Cymru.

i) Ymgynghoriad: Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2024-25.

c) Amrywiol.

i) Pwyllgor Cae Chwarae Llandderfel – cais i wneud newidiadau. **Cytunwyd yn unfrydol i gefnogi'r Pwyllgor gyda'i cynlluniau newydd.**

ii) Wavehill - ymgynghoriadau â rhanddeiliaid: asesiad effaith economaidd-gymdeithasol Fferm Wynt Gaerwen. **Gofynwyd i'r Clerch ofyn iddynt am ragor o wybodaeth cyn eu gwblhau.**

v) Ceisiadau Cynllunio

Dim ceisiadau wedi cael eu cyflwyno.

vi) Materion Ariannol

a) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau i ddiwedd Medi 2023)- **Cymeradwywyd.**

b) Archwilio Cymru -

i) Archwiliad 2022-23. **Derbyniwyd yr Adroddiad yn nol gan yr archwilwyr allanol gyda'r cadarnhad ei fod yn gywir ac nid oedd unrhyw fater yn codi o'r archwiliad. Cytunwyd i'w gymeradwyo. Cafwyd cadarnhad gan y Clerch ei bod wedi arddangos y 'Rhybudd o ddiwedd yr archwiliad' yn y manau perthnasol.**

ii) Ymgynghoriad ar Raddfeydd Ffioedd 2024-25 – **nodwyd.**

c) Taliadau – Cyflog a chostau'r clerch, TWE, D Emyr (llwybr newydd mynwent Frongoch) – pan fydd y gwaith wedi cael ei gwblhau. **Cymeradwywyd.**

vii) Materion lleol.

a) **Cytunwyd i anfon y cwynion i'r adrannau perthnasol.**

CYTUNWYD I GYNNAL Y CYFARFOD NESAF AR NOS FAWRTH TACHWEDD 7FED YN NEUADD MYNACH.